# Ardal Ni 2035
# Canlyniadau Ymarferiad Ymgysylltu Cyhoeddus
## (Chwefror – Mehefin 2022)

## Bro Ardudwy.



CYNGOR GWYNEDD

# 1 Cyflwyniad

1.1 Bwriad prosiect Ardal Ni 2035 ydi cynnal sgwrs a thrafod gyda chymunedau lleol er mwyn adnabod beth sy'n bwysig i drigolion a sut yr hoffent weld eu hardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

1.2 Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 cynllun adfywio penodol yn cael eu creu a fydd adlewyrchu blaenoriaethau a dyheadau cymunedau lleol.

1.3 Fel cam cyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- **Beth sy'n dda** am yr ardal?
- **Beth sydd ddim mor dda** am yr ardal?
- **Pa newidiadau fysech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal** yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

1.4 Fe wnaeth **15** o Gynghorau Cymuned/Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol ym Mro Ardudwy gyflwyno eu syniadau ynglŷn â beth ddylai fod yn flaenoriaethau lleol ar gyfer yr ardal yn y cyfnod hyd at 2035. Defnyddiwyd yr ymatebion yma fel sail ar gyfer yr ail-gam o ymgysylltu ehangach gyda'r cyhoedd.

1.5 Ym mis Chwefror 2022 fe lansiwyd ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 13 ardal/dalgylch, gyda gwahoddiad i bobl leol gyfrannu i'r gwaith o siapio prosiect Ardal Ni 2035 drwy lenwi holiadur syml ar-lein neu ar bapur.

1.6 Er mwyn annog cymaint o bobl â phosib i gymryd rhan, trefnwyd ymgyrch ymgysylltu cynhwysfawr a oedd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg ac eitem ar y radio;
- Hysbysebion yn y papurau Bro;
- Taflenni gwybodaeth;
- Negeseuon drwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Negeseuon amlwg ar dudalen gartref gwefan y Cyngor;
- Mynychu digwyddiad Balchder Gogledd Cymru ym Mangor.

1.7 Yn ogystal, trefnwyd cyfres o ymweliadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb i glywed lleisiau grwpiau ac unigolion nad yw'r Cyngor wedi clywed (rhyw lawer) ganddynt yn hanesyddol. Roedd rhain yn cynnwys:


- GISDA Blaenau Ffestiniog – Sesiwn drafod gyda'r criw Bwrdd Pobl Ifanc a sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Caernarfon - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- GISDA Pwllheli - Sesiwn drafod gydag aelodau o Glwb LHDT+ GISDA.
- Dementia Actif Gwynedd, Y Bermo – Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif Gwynedd, Dolgellau - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.
- Dementia Actif – Sesiwn drafod ar ôl chwarae Boccia yn Nhafarn yr Heliwr yn Nefyn.
- Dementia Actif, Caernarfon - Sesiwn drafod ar ôl yr ymarfer cadw'n heini.

# 2 Trosolwg Sirol

**3,776** o unigolion ar draws Gwynedd wedi manteisio ar y cyfle i ddweud eu dweud:


- **3,675** o'r rhain wedi cwblhau'r holiadur ar-lein.
- **10** wedi cwblhau'r holiadur papur a oedd ar gael yn y llyfrgelloedd, siopau Gwynedd neu drwy gyflwyno cais dros y ffôn.
- **6** wedi cwblhau'r fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r holiadur.
- **85** o bobl wedi mynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer **pobl ifanc**, **pobl ifanc LHDT+**, **pobl hŷn** a **phobl sy'n byw gyda dementia.**


## 2.1 Nifer o ymatebwyr fesul ardal*






*Ar gyfer yr holiadur ar-lein a phapur.


## 2.2 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd.










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
SIARAD CYMRAEG
1963
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
1641
DARLLEN CYMRAEG
1577
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
1413
DDIM YN DEALL CYMRAEG
706
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
449
0
500
1000
1500
2000
2500



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
1880
SEISNIG
482
ALBANAIDD
21
GWYDDELIG O OGLEDD IWERDDON
2
PRYDEINIG
844
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
212
ARALL:
97
0
500
1000
1500
2000


BETH YW EICH HIL?
GWYN
DU / CARIBÏAIDD AFFRICANAIDD
ASIAIDD
SIPSIWN / TEITHIWR GWYDDELIG
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
3204
12
10
4
25
260
19
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
MWSLEMAIDD
BWDHAIDD
HINDW
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
1789
6
22
4
8
820
803
236
0
500
1000
1500
2000


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
3055
DYN HOYW
47
DYNES HOYW / LESBIAN
29
DEURYWIOL (BISEXUAL)
53
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
425
ARALL:
28
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
46
NA
3218
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
300
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500



A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
317
NAC YDW
3068
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
305
0
500
1000
1500
2000
2500
3000
3500


# 3 Canlyniadau Bro Ardudwy


## 3.1 Trosolwg o'r Ymatebwyr i'r Arolwg Cyhoeddus ar gyfer Bro Ardudwy.


3.2 Derbyniwyd **273** o ymatebion i'r Holiadur Ardal Ni 2035 ar gyfer Bro Ardudwy










YDYCH CHI'N DEALL, SIARAD, DARLLEN A/NEU'N YSGRIFENNU'N GYMRAEG?
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
58
DDIM YN DEALL CYMRAEG
72
YSGRIFENNU'N GYMRAEG
61
DARLLEN CYMRAEG
81
DEALL CYMRAEG AR LAFAR
101
SIARAD CYMRAEG
94
0
20
40
60
80
100
120



CENEDLIGRWYDD NEU HUNANIAETH GENEDLAETHOL?
CYMREIG
83
SAESNEG
52
ALBANAIDD
2
PRYDEINIG
95
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
26
ARALL:
9
0
20
40
60
80
100


BETH YW EICH HIL?
GWYN
238
ASIAIDD
1
CYMYSG / SAWL GRŴP ETHNIG
3
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
31
ARALL:
1
0
50
100
150
200
250


BETH YW EICH CREFYDD?
CRISTION
BWDHAIDD
IDDEWIG
ANFFYDDIWR
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
124
2
1
55
68
24
0
20
40
60
80
100
120
140


PA UN O'R RHAIN SY'N EICH DISGRIFIO CHI ORAU?
HETERORYWIOL / STRÊT
DYN HOYW
DYNES HOYW / LESBIAN
DEURYWIOL
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
ARALL:
223
3
2
2
40
2
0
50
100
150
200
250


YDI EICH HUNANIAETH RHYWEDD WEDI NEWID O'R HYN A BENNWYD ADEG EICH GENI?
YDI
NAC YDI
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
1
244
25
0
50
100
150
200
250
300


A YDYCH CHI'N YSTYRIED EICH HUN YN BERSON ANABL?
YDW
25
NAC YDW
221
GWELL GENNYF BEIDIO Â DWEUD
28
0
50
100
150
200
250

# 4 Nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ardudwy.

4.1 Mae’r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebwyr fesul tref neu bentref ym Mro Ardudwy.

| Tref/Pentref | Nifer o ymatebwyr |
|---|---|
| • Abermaw / Y Bermo | **78** |
| • Harlech | **71** |
| • Dyffryn Ardudwy | **42** |
| • Llanbedr | **27** |
| • Talsarnau | **13** |
| • Llandanwg | **11** |
| • Llanaber | **9** |
| • Llanfair | **9** |
| • Tal-Y-Bont | **5** |
| • Arall: | **4** |
| • Llandecwyn | **3** |
| • Llanenddwyn | **1** |

# 5 Beth sy'n dda am Fro Ardudwy?

5.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ardudwy. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ardudwy i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sy'n dda am Fro Ardudwy?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Yr amgylchedd naturiol ac hwylustod at fynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | **231** |
| • Mae'n ardal ddiogel | **164** |
| • Treftadaeth a hanes yr ardal | **145** |
| • Gallu'r ardal i ddenu twristiaeth er budd economaidd | **132** |
| • Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | **124** |
| • Llwybrau cerdded a beicio a Llwybr yr Arfordir o safon | **85** |
| • Trafnidiaeth gyhoeddus - y ffaith fod rhwydwaith trên y Cambrian yn gwasanaethu'r ardal a'r rhwydwaith bws | **70** |
| • Cyfleusterau fel siopau, caffis a bwytai | **68** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant | **57** |
| • Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gwirfoddol gweithgar yr ardal | **42** |
| • Darpariaeth Addysg ac ysgolion lleol | **17** |
| • Gweithgareddau cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol | **12** |
| • Cyfleoedd gwaith yn yr ardal | **7** |
| • Gweithgareddau a chyfleoedd i bobl ifanc | **3** |

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sy'n dda am Fro Ardudwy sydd heb ei restru uchod'**, derbyniwyd **58** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ardudwy. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Yr amgylchedd naturiol, natur ac awyr glan (n=13); ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol (n=5); gallu'r ardal i denu twristiaeth er budd economaidd (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall oedd yn dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Ffordd o fyw | **7** |
| • Rhwydwaith ffyrdd da | **4** |
| • Amaethyddiaeth | **3** |

5.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Abermaw. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

5.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

5.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 6 Beth sydd ddim mor dda am Fro Ardudwy?

6.1 Mae'r tabl isod yn rhestru'r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ardudwy. Fel rhan o'r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ardudwy i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Beth sydd ddim mor dda am Fro Ardudwy?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Diffyg swyddi cyflog uchel a llawn amser | **116** |
| • Diffyg tai addas a fforddiadwy i bobl leol i'w prynu neu eu rhentu | **114** |
| • Mae nifer uchel o ail dai a thai haf yn yr ardal | **111** |
| • Mae'r economi leol yn fregus, nid oes digon o gefnogaeth i fusnesau ac mae siopau'n cau | **106** |
| • Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal | **103** |
| • Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc | **91** |
| • Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol | **90** |
| • Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal | **77** |
| • Dim digon o ddarpariaeth a buddsoddiad i gyfleusterau celfyddydol a hamdden | **47** |
| • Mae tlodi a chostau byw uchel yn broblem yn yr ardal | **45** |
| • Diffyg cyfleusterau megis toiledau cyhoeddus | **42** |
| • Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem | **42** |
| • Dim digon o bwyntiau gwefru ceir yn yr ardal | **42** |
| • Diffyg awch/capasiti yn lleol i gynnal gweithgareddau a denu pobl newydd i fod yn arwain cynghorau cymuned a grwpiau lleol | **41** |
| • Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn colli tir a diffyg cyfleoedd i ddysgwyr yr iaith | **34** |
| • Diffyg darpariaeth i daclo camddefnydd cyffuriau ac alcohol | **30** |
| • Diffyg gweithgareddau a darpariaeth gofal i bobl hŷn | **29** |
| • Diffyg gofal plant yn yr ardal | **14** |

6.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth arall sydd <u>ddim mor dda</u> am Fro Ardudwy sydd heb ei restru uchod',** derbyniwyd **109** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ardudwy. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Problemau yn ymwneud â pharcio, cyflwr ffyrdd a thraffig mewn sawl rhan o'r ardal, gyda nifer yn nodi Llanbedr yn benodol o ran pwnc y ffordd osgoi (n=18); Mae sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal yn broblem, gyda nifer yn nodi baw ci fel problem penodol (n=11); Mae rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn annigonol (n=9); Pryder yn lleol am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal yn yr ardal (n=6).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall sydd ddim mor dda am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| Thema | Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn |
|---|---|
| • Sylwadau ynghylch darpariaeth addysg. | **5** |
| • Teimlad nad ydi'r ardal yn cael sylw teg. | **5** |
| • Diffyg rhwydwaith llwybrau cerdded a beiciau addas sydd hefyd yn cyfarch anghenion pobl anabl. | **5** |
| • Edrychiad yr harbwr/prom yn Y Bermo e.e. tywod yn casglu. | **4** |
| • Pryderon ynghylch ymddygiad gwrth-gymdeithasol. | **4** |

6.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Abermaw. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

6.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

6.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 7 Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ardudwy dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?

7.1 Mae’r tabl isod yn rhestru’r themâu a flaenoriaethwyd gan Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau ac Aelodau lleol Bro Ardudwy. Fel rhan o’r ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus, gwahoddwyd preswylwyr Bro Ardudwy i ddewis hyd at 5 thema yr oeddynt yn cytuno gyda fwyaf.

| **Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ardudwy dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?** | **Nifer o weithiau y blaenoriaethwyd y thema** |
|---|---|
| • Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel | **123** |
| • Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | **121** |
| • Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy’n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal | **106** |
| • Cynlluniau i ddatblygu safle Maes Awyr Llanbedr | **103** |
| • Cyflwyno deddfwriaeth i reoli’r maes tai haf ac ail gartrefi yn effeithiol | **96** |
| • Cynlluniau i ddatrys problemau parcio a thraffig mewn sawl rhan o’r ardal | **82** |
| • Ardal yn fwy gwyrdd - ynni adnewyddol, lleihau’r defnydd o blastig, pwyntiau gwefru ceir, cynlluniau plannu coed ac ati | **82** |
| • Uwchraddio is–adeiledd band eang | **79** |
| • Cynlluniau i wella llwybrau beicio a cherdded yr ardal a gwneud y defnydd gorau bosib o gefn gwlad | **77** |
| • Gwelliannau i harbwr Bermo | **67** |
| • Cynlluniau i wella cyfleusterau ac adnoddau cymunedol lleol er mwyn dod a phobl at ei gilydd | **61** |
| • Cynlluniau i ddatblygu gwell darpariaeth chwaraeon yn yr ardal a chymorth i ganolfannau hamdden cymunedol | **43** |
| • Cynlluniau a chefnogaeth i weithgareddau sy’n hyrwyddo’r iaith Gymraeg a’r diwylliant ac sy’n cefnogi dysgwyr yr iaith | **40** |
| • Cynlluniau i ddatblygu sgiliau a hyder ymysg aelodau cynghorau cymuned, grwpiau a mentrau cymdeithasol a hybu gwell cydweithio rhwng y grwpiau yma | **37** |
| • Angen darpariaeth addysg Ysgol Gydol Oes i'r ardal | **35** |
| • Datblygiad gwesty (cwmni cenedlaethol) | **35** |

| | |
|---|---|
| • Darpariaeth gofal plant addas yn yr ardal a grwpiau mam a babi | **17** |

7.2 Mewn ymateb i'r cwestiwn **'Nodwch unrhyw beth yr ydych yn meddwl sydd wedi'i fethu uchod'**, derbyniwyd **99** o sylwadau ychwanegol gan breswylwyr Bro Ardudwy. Roedd nifer o'r ymatebion ychwanegol yn cynnig sylwadau pellach am y themâu uchod e.e. Cynlluniau i sicrhau gwaith a swyddi gwerth uchel (n=7); Gwelliannau i harbwr/prom Y Bermo (n=4); Cynlluniau i ddatblygu safle Maes Awyr Llanbedr (n=3); Cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol yr ardal (n=3).

O'r sylwadau a oedd yn nodi rhywbeth arall am yr ardal, y themâu mwyaf poblogaidd oedd:

| **Thema** | **Nifer o ymatebwyr ddaru nodi hyn** |
|---|---|
| • Datrysiad i'r sefyllfa ynghylch y ffordd osgoi Llanbedr. | **14** |
| • Buddsoddiad ac ystyriaeth deg i'r sector twristiaeth yn yr ardal. | **9** |
| • Cynlluniau i wella darpariaeth a gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc. | **4** |
| • Buddsoddi yn y celfyddydau | **3** |

7.3 Yn ychwanegol i'r uchod, trefnwyd sesiwn wyneb yn wyneb gyda'r criw Dementia Actif Gwynedd yn Abermaw. Mae'r sylwadau yma i'w gweld yn Atodiad A.

7.4 Yn ychwanegol i'r uchod, mae sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen i'w gweld yn Atodiad B.

7.5 Bydd yr holl sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal.

# 8 Camau Nesaf

8.1 Yn ystod yr hydref, bydd yr holl adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan breswylwyr a sefydliadau Bro Ardudwy yn cael ei defnyddio mewn gweithdai gyda sefydliadau lleol fel rhan o waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Lleol.

8.2 Bwriad y Cynllun Gweithredu yw ymgorffori prosiectau a gweithgaredd ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at adfywio a gwella ardal Bro Ardudwy.

8.3 Fel rhan o'r Fframwaith Adfywio, bydd trefniadau ar gyfer monitro a chydlynu'r rhaglen waith yn cael eu sefydlu, gan ystyried strwythurau a trefniadau cydweithio presennol.

8.4 Mae'r amserlen ar gyfer camau nesaf o'r gwaith fel a ganlyn:

- Gweithdai gyda sefydliadau Lleol : Hydref / Tachwedd 2022
- Cynlluniau Gweithredu Drafft yn cael eu paratoi : Mawrth 2023
- Derbyn sylwadau neu ychwanegiadau i'r ddogfen ddrafft : Ebrill 2023
- Cynllun Gweithredu diwygiedig : Ebrill / Mai 2023
- Trefniadau Cyd-lynu a monitro yn weithredol : Mai 2023

8.5 Bydd gwybodaeth pellach am y cynlluniau hyn yn cael eu cyhoeddi ar safle we Cyngor Gwynedd (www.gwynedd.llyw.cymru).

8.6 Hoffem ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd yr amser i roi eu barn ac i gyfrannu i'r gwaith o wella a chryfhau ein cymunedau.

# Atodiad A

**Sesiwn Dementia Actif Gwynedd - Theatr y ddraig,  Abermaw - 15/6/22.**

## Beth sy'n dda am Fro Ardudwy?

- Theatr y ddraig.
- Llawer o weithgareddau yn mynd ymlaen.
- Y traeth.
- Ardal da i fyw.
- Pobl cyfeillgar ac ysbryd cymunedol.
- Siopa da.
- Digonedd o lefydd i fynd am fwyd, ac amrywiaeth da.
- Neuadd pentref Dyffryn a Llanbedr.
- Rhandir/alloment wedi agor yn Dyffryn, lle i'r cyhoedd brynu ffrwythau a llysiau sydd edi cael ei dyfu yna.
- Cyngor y dref da.
- 'Cadetiaid awyr' yn Llanbedr.

## Beth sydd ddim yn dda am Fro Ardudwy?

- Llawer or siopau ar gau.
- Cyfleusterau toiledau – yn aml ar gau.
- Ail dai.
- Dim yn torri gwair digon aml.
- Gwteri yn llawn - yn aml y cymuned sydd yn gorfod eu gwagio i atal llifogydd.
- Dim cyfleusterau i blant ifanc.
- Dylai yr arian sydd y cael ei gasglu o'r maes parcio cael ei roi nôl mewn i'r gymuned.
- Canfyddiad o ddiffyg presenoldeb gan yr heddlu
- Ysbyty yn bell.
- CCTV gwael.
- Pryderon am ymddygiad gwrth-gymdeithasol / fandaleiddio.
- Diffyg cynnydd o ran ffordd osgoi Llanbedr.
- Mae yna gwaith cynnal a chadw ar y trenau pan mae pensiynwyr yn cael teithio arnynt am ddim, yn aml maent yn colli mis neu ddau o deithio.
- Dim bws yn y prynhawn hwyr na gyda'r nos.
- Tydi'r safleoedd trên ddim yn hygyrch - mae nhw'n aml yn bell i gerdded i e.e. Llanbedr.
- Pryderon am fynediad i Fanciau.

**Pa newidiadau fyddech chi'n dymuno eu gweld yn digwydd ym Mro Ardudwy dros y 15 mlynedd nesaf fyddai'n gwneud yr ardal yn well lle i fyw ynddi?**

- Pwll nofio.
- Bowlio deg.
- Gwneud y ganolfan hamdden yn Abermaw yn haws i'w ddarganfod – teimlad nad yw'n yn hawdd ei ddarganfod ar hyn o bryd. Hefyd eisiau gweld oriau agor dros y penwythnos.
- Arwyddion dwyieithog.
- Gwneud rhywbeth ynghylch y tywod oddi ar y traeth sydd yn casglu ar lwybrau ac ati.
- Cynlluniau i wella'r 'prom' yn Y Bermo.
- Darparu mwy o adnoddau i bobl ifanc.
- Cael mwy o gyfleoedd gwirfoddoli.

# Atodiad B

**Sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiadur Hawdd ei Ddarllen ar gyfer Bro Ardudwy.**

## Beth ydach chi yn hoffi am eich ardal?

- Yr amgylchedd naturiol.
- Bywyd gwyllt.
- Adeiladau hanesyddol.
- Llefydd i gerdded.
- Cymuned cyfeillgar.

## Beth ydach chi ddim yn hoffi am eich ardal?

- Sbwriel mewn rhai llefydd.
- Nifer o garafanau static.

## Beth ydach chi eisiau gweld yn digwydd yn eich ardal i neud o yn lle gwych i fyw?

- Cymunedau yn cael mwy o mewnbwn mewn penderfyniadau sydd yn effeithio arnynt.
- Cynlluniau i ddatblygu twristiaeth gynaliadwy.
- Cynlluniau i warchod adeiladau hanesyddol.

CYNGOR GWYNEDD

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

www.gwynedd.llyw.cymru | 01766 771000